



TGAU Ffrangeg CBAC

Llyfr Athrawon

Louise Pearce, Bethan McHugh
a Chris Whittaker

Wedi'i gymeradwyo gan


Crown House Publishing
www.crownhouse.co.uk


cbac
wjec

Addasiad Cymraeg o *WJEC GCSE French Teacher Guide* a gyhoeddwyd yn 2016 gan
Crown House Publishing Cyf.,
Crown Buildings, Bancyfelin, Caerfyrddin, SA33 5ND
www.crownhouse.co.uk

a

Crown House Publishing Company CAC
P.O. Box 2223, Williston, VT 05495
www.crownhousepublishing.com



Cyhoeddwyd dan nawdd Cynllun Adnoddau Addysgu a Dysgu CBAC

© Louise Pearce, Bethan McHugh a Chris Whittaker, 2016 (Yr argraffiad Saesneg)

Mae Louise Pearce, Bethan McHugh a Chris Whittaker wedi datgan eu hawliau i gael eu cydnabod yn awduron y gwaith hwn yn unol â Deddf Hawlfraint, Dyluniadau a Phatentau 1988.

© CBAC (Yr argraffiad Cymraeg hwn)

Cedwir pob hawl. Ac eithrio ar gyfer unrhyw ddefnydd a ganiateir dan y ddeddfwriaeth gyfredol, ni cheir llungopïo, storio mewn system adalw, cyhoeddi, perfformio yn gyhoeddus, addasu, darlledu, trosglwyddo, recordio nac atgynhyrchu unrhyw ran o'r gwaith hwn ar unrhyw ffurf neu drwy unrhyw ddull, heb ganiatâd perchenogion yr hawlfraint ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau at Crown House Publishing Cyf.

Nid yw Crown House Publishing yn gyfrifol am gywirdeb na pharhad URLau gwefannau allanol neu wefannau trydydd parti y cyfeirir atynt yn y cyhoeddiad hwn, ac nid yw'n gwarantu y bydd cynnwys y cyfryw wefannau yn gywir neu'n addas, ar hyn o bryd nac yn y dyfodol.

Data *Catalogio drwy Gyhoeddi* y Llyfrgell Brydeinig

Mae cofnod catalog ar gyfer y llyfr hwn ar gael gan y Llyfrgell Brydeinig.

Gweler tudalen 119 am gydnabyddiaeth y lluniau.

ISBN 978-178583231-4

CYNNWYS

TGAU FFRANGEG CBAC5

Themâu	5
Crynodeb o'r asesu	6
Cwmpas yr astudiaeth	7
Cyd-destunau a'u diben	8
Gofynion gramadegol.	9

CYFLWYNO'R GWERSLYFR TGAU FFRANGEG CBAC12

TROSOLWG O'R GWERSLYFR14

Rhaglen astudio dwy flynedd	15
Rhaglen astudio tair blynedd	15

TROSOLWG O GYNNWYS Y GWERSLYFR16

1a Yr hunan a pherthnasoedd.	17
1b Technoleg a chyfryngau cymdeithasol	18
2a Ardaloedd lleol o ddiddordeb	20
2b Teithio a thrafnidiaeth.	21
3a Bywyd ysgol/ coleg	23
3b Astudiaethau ysgol/ coleg	24
4a Iechyd a ffitrwydd	26
4b Adloniant a hamdden	27
5a Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith.	29
5b Gwyliau a thwristiaeth.	30
6a Cyflogaeth.	32
6b Sgiliau a rhinweddau personol.	33
7a Bwyd a diod	35
7b Gwyliau a dathliadau.	36
8a Yr amgylchedd.	38
8b Materion cymdeithasol	39
9a Astudiaeth ôl-16	41
9b Cynlluniau gyrfa	42

TROSOLWG AR GYFER GRAMADEG YN EI GYD-DESTUN.44

TRAWSGRIFIADAU AC ATEBION45

1a Yr hunan a pherthnasoedd.	48
1b Technoleg a chyfryngau cymdeithasol	51
2a Ardaloedd lleol o ddiddordeb	56
2b Teithio a thrafnidiaeth.	59
3a Bywyd ysgol/coleg	64
3b Astudiaethau ysgol/coleg	67
4a Iechyd a ffitrwydd	72
4b Adloniant a hamdden	75
5a Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith. . .	80
5b Gwyliau a thwristiaeth.	83
6a Cyflogaeth	88
6b Sgiliau a rhinweddau personol.	91
7a Bwyd a diod	96
7b Gwyliau a dathliadau.	99
8a Yr amgylchedd.	104
8b Materion cymdeithasol	107
9a Astudiaeth ôl-16	112
9b Cynlluniau gyrfa	115

CYDNABYDDIAETH – LLUNIAU. 119

RHESTR O'R TRACIAU 120

TGAU FFRANGEG CBAC

THEMÂU

Mae TGAU Ffrangeg CBAC wedi ei rannu yn dair prif **thema**. Mae gan bob thema dair is-thema sydd wedi eu rhannu yn fodiwlau. Mae hyn yn gwneud cyfanswm o 18 modiwl a fydd yn cael eu hastudio yn ystod y cwrs. Mae'r llyfr wedi ei rannu yn yr un ffordd ac mae pob is-thema yn cynnwys:

- Tair tudalen ddwbl o weithgareddau ar gyfer pob modiwl.
- Tudalennau dwbl o eirfa ar gyfer pob modiwl.
- Ymarfer 'Gramadeg yn ei gyd-destun' ar ddiwedd yr is-thema.

HUNANIAETH A DIWYLLIANT	CYMRU A'R BYD – MEYSYDD O DDIDDORDEB	ASTUDIAETH GYFREDOL, ASTUDIAETH YN Y DYFODOL A CHYFLOGAETH
<p>DIWYLLIANT IEUENCTID</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr hunan a pherthnasoedd• Technoleg a chyfryngau cymdeithasol <p>FFORDD O FYW</p> <ul style="list-style-type: none">• Iechyd a ffitrwydd• Adloniant a hamdden <p>ARFERION A THRADDODIADAU</p> <ul style="list-style-type: none">• Bwyd a diod• Gwyliau a dathliadau	<p>Y CARTREF A'R ARDAL LEOL</p> <ul style="list-style-type: none">• Ardaloedd lleol o ddiddordeb• Teithio a thrafnidiaeth <p>Y BYD EHangach</p> <ul style="list-style-type: none">• Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith• Gwyliau a thwristiaeth <p>CYNALIADWYEDD BYD-EANG</p> <ul style="list-style-type: none">• Yr amgylchedd• Materion cymdeithasol	<p>ASTUDIAETH GYFREDOL</p> <ul style="list-style-type: none">• Bywyd ysgol/coleg• Astudiaethau ysgol/coleg <p>MENTER, CYFLOGADWYEDD A CHYNLLUNIAU AR GYFER Y DYFODOL</p> <ul style="list-style-type: none">• Cyflogaeth• Sgiliau a rhinweddau personol• Astudiaeth ôl-16• Cynlluniau gyrfa

CYFLWYNO'R GWERSLYFR TGAU FFRANGEG CBAC

Cynlluniwyd y gwerslyfr hwn ar y cyd â CBAC i gynnig cynnwys ysgogol a pherthnasol gydag ymdriniaeth gynhwysfawr o themâu ac is-themâu CBAC, gan gynnwys holl unedau'r arholiadau newydd.

Mae'r modiwlau wedi eu cynllunio ar gyfer addysgu gallu cymysg ac maent yn cynnwys amrediad eang o weithgareddau ar gyfer amrywiaeth o allu i ymarfer y pedwar sgil ar y lefelau Sylfaenol ac Uwch.

Drwy'r llyfr i fyfyrwyr byddwch yn gweld yr eiconau hyn:

DARLLEN



Mae gan bob modiwl (e.e. 1a Yr hunan a pherthnasoedd) chwe ymarfer darllen sy'n cynnwys:

- Tair tasg ddarllen fer
- Tair tasg ddarllen hirach
- Dwy dasg yn yr iaith a asesir
- Un dasg ar destun llenyddol seiliedig ar y modiwl
- Cwestiynau geiriol a dieiriau
- Cwestiynau sy'n mynd i'r afael â gofynion yr Adran Addysg o ran cwmpas yr astudiaeth a'r cyd-destunau a'u diben

Yn ychwanegol, mae cyfeithiad i'r Gymraeg ym mhob modiwl.

GWRANDO



Mae pob modiwl yn cynnwys tair tasg wrando ac mae un o'r rhain yn yr iaith a asesir. Maent yn ymdrin ag amrediad o gyd-destunau ac yn defnyddio amrywiaeth o arddulliau cwestiwn er mwyn cyd-fynd â gofynion rheoliadol yr arholiad.

SIARAD



Mae pob modiwl yn cynnwys:

- Llun ar gerdyn gyda chwestiynau ymarfer. Yn yr arholiad go iawn mae dau gwestiwn wedi'u gweld o'r blaen a dau gwestiwn heb eu gweld o'r blaen. Ar gyfer ymarfer, mae gan y lluniau ar gardiau yn y gwerslyfr bum cwestiwn sy'n cynyddu o ran eu lefel anhawster i helpu ymgeiswyr Sylfaenol ac Uwch i baratoi ar gyfer yr arholiad.

- Mae'r tasgau chwarae rôl yn yr arholiad yn cynnwys pum rhyngweithiad sy'n cynnwys un cwestiwn annisgwyl. Er mwyn helpu myfyrwyr i baratoi ar gyfer yr elfen hon o'r arholiad, mae'r tasgau chwarae rôl yn y gwrslyfr yn cynnwys chwe sbardun (dau osodiad, dau gwestiwn i'w gofyn a dau osodiad amser) i fyfyrwyr eu hymarfer, a bydd hyn yn eu helpu i ymgyswrtio â phwysau'r amser paratoi cyn eu harholiad siarad.
- Rhestr o gwestiynau sgwsr posibl. Mae pob modiwl yn cynnwys chwe chwestiwn sy'n cynyddu o ran anhawster a byddant yn gofyn am safbwyntiau manwl ac amrediad o amserau. Gall y rhain ffurfio rhan o fanc cwestiynau i helpu myfyrwyr i adolygu ar gyfer yr elfen hon o'r arholiad.

YSGRIFENNU



Mae pob modiwl yn cynnwys tasgau wedi'u strwythuro'n ofalus sy'n debyg, o ran yr hyn a ddisgwylir, i'r arholiad ysgrifennu. Mae'r rhain yn amrywio o ran arddull er mwyn cyfateb i ofynion yr arholiad go iawn a gall pob un ohonynt gael ei addasu ar gyfer myfyrwyr Sylfaenol ac Uwch. Mae cyfieithiad i'r Ffrangeg hefyd ym mhob modiwl.

YCHWANEGOL



Mae gan rai ymarferion adran Ychwanegol sy'n cynnig ymarfer iaith ychwanegol neu gwestiynau mwy heriol. Mae'r rhain yn ddelfrydol i estyn a herio disgyblion mwy galluog.

GRAMADEG



Mae'r blychau gramadeg yn y modiwlau i gyd yn amlygu'r pwyntiau perthnasol sy'n codi. Mae adran 'Gramadeg yn ei gyd-destun' hefyd ar ddiwedd pob is-thema (dau fodiwl) gydag ymarferion ymarfer, ac mae crynodeb gramadeg gyda thablau berfau yng nghefn y llyfr.



Mae'r eicon hwn yn dynodi geiriau ac ymadroddion allweddol neu nodiadau atgoffa drwy'r llyfr.



Ar ddiwedd pob modiwl mae rhestr eirfa ddefnyddiol sy'n seiliedig ar fanyleb TGAU CBAC.

TROSOLWG O'R GWERSLYFR

	Hunaniaeth a diwylliant	Cymru a'r byd – meysydd o ddiddordeb	Astudiaeth gyfredol, astudiaeth yn y dyfodol a chyflogaeth
Uned 1 Modiwlau 1–3	Diwylliant ieuencid (1a) Yr hunan a pherthnasoedd (1b) Technoleg a chyfryngau cymdeithasol	Y cartref a'r ardal leol (2a) Ardaloedd lleol o ddiddordeb (2b) Teithio a thrafnidiaeth	Astudiaeth gyfredol (3a) Bywyd ysgol/coleg (3b) Astudiaethau ysgol/coleg
Uned 2 Modiwlau 4–6	Ffordd o fyw (4a) Iechyd a ffitrwydd (4b) Adloniant a hamdden	Y byd ehangach (5a) Nodweddion lleol a rhanbarthol Ffrainc a gwledydd Ffrangeg eu hiaith (5b) Gwyliau a thwristiaeth	Menter, cyflogadwyedd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol (6a) Cyflogaeth (6b) Sgiliau a rhinweddau personol
Uned 3 Modiwlau 7–9	Arferion a thraddodiadau (7a) Bwyd a diod (7b) Gwyliau a dathliadau	Cynaliadwyedd byd-eang (8a) Yr amgylchedd (8b) Materion cymdeithasol	Menter, cyflogadwyedd a chynlluniau ar gyfer y dyfodol (9a) Astudiaeth ôl-16 (9b) Cynlluniau gyrfa

THEMA: HUNANIAETH A DIWYLLIANT

UNED 1

DIWYLLIANT IEUENCTID



1A YR HUNAN A PHERTHNASOEDD (1)

TGAU Ffrangeg CBAC, tt. 10–11

DARLLEN



Atebion:

Y gosodiadau cywir yw 2, 4, 5, 8, 10

DARLLEN



Cyfieithiadau posibl:

1. Mae fy ffrind gorau yn ddoniol, yn neis ac yn oddefgar.
2. Mae gan fy chwaer lawer o ffrindiau.
3. Rwy'n dod ymlaen yn dda â fy rhieni.
4. Beth yw rhinweddau ffrind da?

DARLLEN



Atebion:

1. Eisiau newid/bod yn rhywun gwahanol/newid ei olwg/ei ddelwedd
2. Swil/ofnus, diflas
3. Ar ddiwedd yr ysgol uwchradd
4. Mae eisiau dilyn y dorf/mae eisiau sefyll allan/bod yn unigolyn
5. Gwisgo dillad mae e'n eu hoffi
6. Bydd hynny'n tawelu ei feddwl/yn rhoi hyder iddo

YCHWANEGOL



Ychwanegol – Cyfieithiadau posibl:

je suis timide, ennuyé(e)

Rwy'n swil, yn ddiflas

mais j'ai aussi peur

Ond mae ofn arnaf i hefyd

tu n'es pas seul

Dwyt ti ddim ar dy ben dy hun

L'important, c'est que tu portes des vêtements que tu aimes

Y peth pwysig yw dy fod yn gwisgo'r dillad rwy'ti'n eu hoffi

Trawsgrifiad:

Cyfwelydd : Vous êtes stressée dans la vie Madame ?



Charlotte : Oui, bien sûr, je suis stressée par le travail et aussi parce que j'ai des problèmes familiaux.

Cyfwelydd : Et vous, Monsieur ?

Benjamin : Tout me stresse, par exemple, les amis et mes parents.

Atebion:

	Métier	Famille	Amis
Charlotte	✓	✓	
Benjamin		✓	✓

Ychwanegol

1. parce que j'ai des problèmes
2. tout me stresse



1A YR HUNAN A PHERTHNASOEDD (2)

TGAU Ffrangeg CBAC, tt. 12–13



Trawsgrifiad:

Je m'appelle Clara. Alors, je suis grande et maigre. J'ai les yeux bruns et les cheveux longs, raides et châains.

Une des filles de ma classe dit que je suis triste et calme, mais ce n'est pas vrai. Je suis contente et bavarde.

Mon père s'appelle Yves, il est comptable. Il donne l'impression d'être intelligent et sérieux, mais en fait il est très bête et pénible. Mais je m'entends bien avec mon père. Il est grand et gros. Il a les yeux marron comme moi.

Ma mère s'appelle Maude, elle reste à la maison. Elle est bête et bavarde. Elle a les yeux verts. Je trouve que ma mère est belle.

Mon frère s'appelle Guillaume et il a cinq ans. Il est pénible. Il est petit et laid. Il a les yeux bleus et les cheveux châains, courts et raides. Il aime le football et les dinosaures. Je déteste mon frère parce qu'il ne me laisse pas tranquille !

Atebion:

Clara

Tal/mawr, tenau, llygaid brown, gwallt hir syth brown. Mae hi'n hapus ac yn siaradus.

Yves

Tal/mawr, tew, llygaid brown Mae e'n ddwl ac yn ddiffas.

Maude

Llygaid gwyrdd, pert. Mae hi'n ddwl ac yn siaradus.

Guillaume

Bach, hyll, llygaid glas. Gwallt byr, syth brown. Mae e'n ddiffas.

GWRANDO



DARLLEN



Atebion:

1. Eric
2. Sylvie
3. Luc
4. Sylvie
5. Luc
6. Arnaud

DARLLEN



Atebion:

1. 25 Gorffennaf 1980
2. Roedd ei mam wedi priodi dyn o wlad Cyprus/yn byw yng ngwlad Cyprus
3. Yn falch
4. Ei henw
5. Canwr
6. Gan mai enw ei fam oedd e

1A YR HUNAN A PHERTHNASOEDD (3)

TGAU Ffrangeg CBAC, tt. 14–15

DARLEN



Atebion:

1. magazines
2. passion
3. ville
4. actrices
5. grandes
6. dernier
7. sont
8. dois

YCHWANEGOL



Ychwanegol:

1. Tout ce dont j'ai besoin
2. Je dois faire attention
3. J'adore suivre
4. Il faut
5. Je m'inspire

DARLEN



Atebion:

1. Cywir
2. Anghywir
3. Cywir
4. Anghywir
5. Anghywir
6. Anghywir

GWRANDO



Trawsgrifiad:

Cyfwelydd : Bafétimbi Gomis, vous êtes joueur de football pour l'équipe de France et vous jouez en Premier League au Royaume-Uni. Aujourd'hui, nous avons l'occasion de parler de votre vie. Voulez-vous nous parler de votre enfance ?

Gomis : Je suis né en France mais mes parents sont d'origine sénégalaise. Je suis né le six août mille neuf cent quatre-vingt-cinq. J'ai grandi dans une banlieue de Toulon. À l'âge de quinze ans, j'ai commencé à jouer dans le championnat professionnel en France.

Cyfwelydd : Parlez-moi de votre vie privée.

Gomis : Je suis très très content parce que je viens d'être papa pour la deuxième fois. On a baptisé ma deuxième fille Yzatis. Elle ressemble à une petite princesse. On a annoncé l'heureux événement sur les réseaux sociaux. Je voudrais toutes et tous vous remercier pour vos nombreux messages de félicitations, qui me vont droit au cœur.

Atebion:

1. 6 Awst 1985
2. Maestrefi/cyrion
3. Dechreuodd chwarae pêl-droed yn Ffrainc yn y Bencampwriaeth/chwarae pêl-droed yn broffesiynol
4. Ei ferch/faban newydd wedi ei geni/wedi cyrraedd/newydd ddod yn dad am yr ail waith
5. Negeseuon yn llongyfarch

Cyfieithiadau posibl:

1. Karl est l'ami de sa mère.
2. Isabelle est mannequin depuis juillet dernier.
3. Isabelle est mannequin de lunettes de soleil.
4. Karl la connaît depuis la moitié de sa vie.

YSGRIFENNU

